Mai 2018

# Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Swyddfa Archwilio Cymru
Wales Audit Office




Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru gan Catryn Holzinger dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**



'Mae'n beth da clywed cyrff cyhoeddus yn siarad am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd frwdfrydig llawn gobaith. Mae wedi bod yn galonogol eu clywed yn disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu newid diwylliant, yn ogystal â pholisïau a phrosesau. Mae'r enghreifftiau maent wedi eu rhannu â'm swyddfa yn awgrymu eu bod yn dechrau gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol.

Cydnabyddaf yr amrywiaeth o heriau mewnol ac allanol sy'n ei gwneud yn anodd gweithredu deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, mae risg bod rhai yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel 'rhywbeth arall i'w wneud'. Oni fydd y cyrff a'r unigolion hynny yn dechrau gweld sut y gall datblygu cynaliadwy eu helpu i ymdrin â heriau mawr o ran y gyllideb a gwasanaethau, yn hytrach na'i weld fel baich ychwanegol, ni fyddant yn llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle y mae'r Ddeddf yn ei gynnig.'

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Cynnwys

Mae cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.


## Cefndir a diben

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 5

Pam ein bod wedi cynnal yr adolygiad hwn 6

Yr hyn a wnaethom 7

## Prif adroddiad

Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais fawr i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae llawer o gyrff cyhoeddus yn ei gweld fel cyfle i newid eu diwylliant a gwella eu ffordd o weithio 9

Gall cyrff cyhoeddus ddarparu enghreifftiau o'r ffordd maent yn defnyddio'r Ddeddf i newid eu ffordd o weithio, ond ni allant ddisgrifio'r ffordd maent yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn systematig eto 15

Mae angen i gyrff cyhoeddus nodi sut y byddant yn parhau i ddatblygu eu dull o ymdrin â'r Ddeddf fel y gallant gyflawni ei huchelgais a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir ganddi 28

## Atodiadau

Atodiad 1 – sylwadau blwyddyn un: cwestiynau'r alwad am dystiolaeth 35

# Cefndir a diben

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yw creu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i 44 o gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy, sef:

> '...[y] broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.'[1]

Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus bennu amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd:

> '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.[2]

3 Er mwyn gwneud hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio' sef:

- edrych i'r hirdymor fel nad ydynt yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- cymryd ymagwedd integredig fel eu bod yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir; a
- deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd neu waethygu.[3]

Yn y ffordd hon, mae'r Ddeddf yn anelu at wella'r hyn mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud a sut maent yn ei wneud fel y gallant wella llesiant Cymru gyda'i gilydd.

1 Rhan 2 2 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
2 Rhan 2 5 (1) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
3 Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, **2016**

4 Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau maent wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad Cynulliad 2021.

5 Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd) ran i'w chwarae hefyd wrth sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn atebol am weithredu'r Ddeddf. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am fonitro ac asesu i ba raddau mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.[4]

## Pam ein bod wedi cynnal yr adolygiad hwn

6 Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais fawr i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ei nod yw sicrhau newid hirdymor yn eu diwylliant a'r canlyniadau a gyflawnir ganddynt. Gan mai yn 2016 y daeth prif ddarpariaethau'r Ddeddf dod i rym, mae'n anochel y bydd angen amser ar gyrff cyhoeddus i gyflwyno'r newid hwnnw. Felly, er bod gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio pob corff cyhoeddus ac adrodd arno erbyn 2020 mae wedi pwysleisio mai cyfnod o drawsnewid yw hwn ac mae'n cydnabod bod pob corff cyhoeddus ar lwybr dysgu.

7 Am y rheswm hwn, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gyflawni darn rhagarweiniol o waith, cyn dechrau ei archwiliadau ffurfiol. Nod yr adolygiad hwn yw:

- darparu trosolwg o'r ffordd mae'r 44 o gyrff cyhoeddus yn ymateb i'r Ddeddf;
- nodi a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu a gwella; a
- helpu i lywio ffocws gwaith archwilio yn y dyfodol o dan y Ddeddf.

4 Ym mis Rhagfyr 2017 llofnododd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth

8 O ystyried natur dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol (gweler paragraff 4), mae'r adolygiad hwn wedi rhoi pwyslais penodol ar y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn dechrau rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn awyddus iawn i ystyried sut roedd cyrff cyhoeddus wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu eu hamcanion llesiant, o ystyried bod angen iddynt eu pennu am y tro cyntaf erbyn mis Ebrill 2017.

9 Felly, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar y ffordd mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r Ddeddf yn y flwyddyn gyntaf. Mae'n rhoi peth adborth cynnar, heb ragnodi disgwyliadau o ran sut y dylai cyrff cyhoeddus fod yn cyflawni eu cyfrifoldebau newydd.

10 Yn gyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol:

> Mae cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio

11 Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd â'r adroddiad hwn. Mae Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn yn edrych ar yr amcanion llesiant y mae cyrff cyhoeddus wedi'u pennu ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau o ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i'w cyflawni.[5]

12 Yn ogystal â'r adolygiad hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu am y Ddeddf drwy'r seminarau dysgu ar y cyd a gaiff eu cynnal gan y Gyfnewidfa Arfer Da.[6]

## Yr hyn a wnaethom

13 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio deall barn cyrff cyhoeddus am y Ddeddf, sut maent yn dechrau ymateb a sut maent yn bwriadu parhau i wella. Y prif gwestiwn y gwnaethom geisio ei ateb oedd:

> Beth mae'r corff cyhoeddus yn ei wneud i ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei ddyletswydd llesiant a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

5 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn**, 2018.
6 Swyddfa Archwilio Cymru, Y Gyfnedidfa Arfer Da: Seminarau dysgu ar y cyd: digwyddiadau'r gorffennol

Yn benodol, gwnaethom ystyried y cwestiynau canlynol:

- beth yw barn y corff cyhoeddus ar ofynion y ddeddfwriaeth a'r goblygiadau o ran sut mae'n gweithio?
- pa gamau allweddol y mae wedi'u cymryd er mwyn cyflawni ei ddyletswydd llesiant ac ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd mae'n gweithio?
- beth mae'n ei wneud i nodi cyfleoedd pellach i gyflawni ei ddyletswydd llesiant ac ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

14 Er mwyn ein galluogi i ateb y cwestiynau hyn, gwnaethom:

- ofyn i gyrff cyhoeddus ymateb i 'alwad am dystiolaeth' (Atodiad 1) yn haf 2017. Rhoddodd hyn gyfle iddynt ddweud wrthym am y gwaith maent yn ei wneud yn eu geiriau eu hunain. Rhoddodd yr hyblygrwydd iddynt ddweud wrthym am y pethau oedd yn bwysig yn eu barn nhw, gan gydnabod y bydd pob corff cyhoeddus yn ymateb i'r Ddeddf yn wahanol.
- siarad ag arweinwyr, cadeiryddion byrddau (neu ffigyrau cyfatebol) a phrif weithredwyr (neu ffigyrau cyfatebol) cyrff cyhoeddus
- adolygu dogfennau allweddol, fel datganiadau llesiant.

15 Gwnaethom hefyd ofyn i gyrff cyhoeddus rannu enghreifftiau o'r ffordd maent yn gweithredu'r Ddeddf. Cyfeirir at rai o'r enghreifftiau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Ni fwriedir iddynt hyrwyddo'r ffordd gywir na'r ffordd orau o weithredu'r Ddeddf, ond yn hytrach i rannu'r amryw ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn dechrau ymateb. Mae llawer o'r enghreifftiau a roddir ar gamau cymharol gynnar o ran eu gweithredu ac mae'r cyrff hynny yn parhau i ddysgu a mireinio eu dulliau gweithredu.

## Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais fawr i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae llawer o gyrff cyhoeddus yn ei gweld fel cyfle i newid eu diwylliant a gwella eu ffordd o weithio

### Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod uchelgais fawr i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

16 Mae'r Ddeddf wedi cael ei disgrifio gan lawer fel darn arloesol o ddeddfwriaeth, sy'n bellgyrhaeddol ac yn torri tir newydd o ran ei natur a'i bwriad. Mae'r Ddeddf yn newydd i Gymru, ond mae hefyd yn unigryw yn rhyngwladol.

17 Mae cwmpas eang y Ddeddf yn dangos bod bwriad clir iddi ddarparu fframwaith ar gyfer y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ac yn cyflawni. Mae wedi'i chynllunio i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a galluogi'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill i ateb yr heriau sylweddol sy'n eu hwynebu nhw a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

'Nid oes unrhyw genedl arall yn cymryd y camau beiddgar hyn i ddeddfu ar gyfer nodau lles hirdymor...

... Bydd yn thema ganolog i'n holl bolisïau a deddfwriaeth.'

**Jeff Cuthbert**
**y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, 2014**[7]

'The Bill is perhaps the most ambitious piece of legislation that the Welsh Government has ever attempted. It will require a fundamental shift in how we seek to tackle our biggest challenges as a nation.'

**Carl Sargeant**
**y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, 2014**[8]

7 Datganiad gan Lywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, 2014
8 Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Wales in 2050: What kind of Wales do we want to live in?, Wales Online 2014

> ‘Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhoi i ni’r anogaeth, caniatâd a’r rhwymedigaeth i wneud y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni’r Gymru a garem’
>
> **Comisiynydd Swyddfa Cenedlaethau’r Dyfodol**[9]

18 Fodd bynnag, nid yw’r Ddeddf yn troi ei chefn yn llwyr ar y polisi a’r arfer a’i rhagflaenodd. Er enghraifft, mae’r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cynlluniau llesiant ac asesiadau o lesiant a gyflwynir gan y Ddeddf yn dilyn ymlaen o Fyrddau Gwasanaethau Lleol, cynlluniau integredig sengl ac asesiadau o anghenion. Mae’r Ddeddf yn dilyn egwyddorion hirsefydledig llywodraethu da a llunio polisïau. At hynny, roedd deddfwriaeth a fodolai eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, roedd gofyn i awdurdodau lleol ystyried sut roeddent yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy fel rhan o’u cyfrifoldebau gwella. Mae gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol ddyletswydd hirsefydledig i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.[10] Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy a dilyn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau.[11] O ystyried y cyd-destun hwn, efallai nad yw’n syndod bod gwahanol farn am faint a chyflymder y newid sydd ei angen o dan y Ddeddf.

19 Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi nodi’n glir mai hanfod y Ddeddf yw newid ffyrdd o ymddwyn a ffyrdd o feddwl. Mae wedi cydnabod, er bod y Ddeddf yn torri tir newydd, ei bod hefyd yn hynod anodd, am nad yw cyflwyno’r fath newid yn hawdd. Yn bwysig, mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi pwysleisio bod cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach ar daith gyda’i gilydd.

9 Gwefan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol
10 Adran 11A (1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
11 Mae naw egwyddor: rheolaeth ymaddasol, graddfa, cydweithredu ac ymgysylltu, cyfranogiad y cyhoedd, tystiolaeth, llawer o fanteision, tymor hir, gweithgareddau ataliol ac adeiladu cydnerthedd. Cyfoeth Naturiol Cymru, **Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol: Datganiad Llesiant 2017-18**

> Are we going to rely too much on the past and not think through what we need to do to radically change, to develop new ways of approaching the aims and goals of the legislation?
>
> … Don't expect from the auditor, or from Sophie, a clear 'this is how to do it' - so you can go away and tick the boxes. It's not like that. It is, however, a journey in which I'm engaged, you're engaged and Sophie is engaged.
>
> **Huw Vaughan Thomas**
> **Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2016**[12]

20 Mae'r Comisiynydd wedi pwysleisio'r ffaith bod angen i newid fynd y tu hwnt i'r dyletswyddau a chanolbwyntio ar ymddygiad. Mae'n gweld ei hun mewn rôl gefnogol ar gamau cynnar y Ddeddf ond mae wedi dweud y bydd yn herio busnes fel arfer ac nad yw'n derbyn y syniad y gwneir hyn yn barod.[13]

> This Act is just what was needed to unsettle the status quo, ruffle a few feathers, and bring public services back to the purpose they were set up for in the first place – to improve the lives and well-being of people here in Wales, today, and for every tomorrow to come…
>
> …we're open and realistic about the fact that this culture change is not going to happen overnight. As we move through turbulent and ever-changing times, the road towards the well-being goals is never going to be straightforward and easy.
>
> **Sophie Howe**
> **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2016**[14]

12 Archwilydd Cyffredinol Cymru, araith cynhadledd Llunio Atebolrwydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, 2016
13 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn**, 2018
14 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, araith cynhadledd Llunio Atebolrwydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, 2016

21 Bydd yn bwysig i gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid barhau i drafod faint o newid sydd ei angen yn eu barn nhw a pha mor gyflym y gellir disgwyl hynny'n rhesymol. Bydd y drafodaeth hon yn meithrin gwell cyd-ddealltwriaeth ac yn helpu i lunio her ac atebolrwydd o ran cyflawni'r Ddeddf.

## Mae cyrff cyhoeddus yn ystyried y Ddeddf yn gyfle i newid eu diwylliant a gwella eu ffordd o weithio

22 Rydym wedi ceisio deall sut mae cyrff cyhoeddus yn ystyried y Ddeddf. Y rheswm dros hyn yw y bydd canfyddiadau o'r Ddeddf, i raddau helaeth, yn penderfynu sut mae cyrff cyhoeddus yn ymateb. Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus ddisgrifio'r Ddeddf a nodi beth roedd yn ei olygu i'w sefydliad. Gwnaethom hefyd ofyn a oeddent yn ei hystyried yn rhywbeth a oedd yn tynnu eu sylw, yn ddiangen, yn gyfle neu'n angenrheidiol. Gwnaethom ystyried hyn fel rhan o'n galwad am dystiolaeth ac yn ystod ein cyfweliadau.

23 Ar y cyfan, disgrifiodd cyrff cyhoeddus y Ddeddf mewn ffordd gadarnhaol. Dywedodd y rhan fwyaf, ym mhob sector, eu bod yn ei hystyried yn 'gyfle'. Roedd hyn yn bennaf am eu bod o'r farn y gallai'r Ddeddf wella prosesau gwneud penderfyniadau a gwaith cynllunio strategol a sicrhau newid cadarnhaol o ran diwylliant ac ymddygiad.

24 Hefyd, disgrifiodd llawer o gyrff iechyd sut y gall y Ddeddf ychwanegu gwerth drwy greu darlun ehangach o sut i wella iechyd y boblogaeth, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynyddu'r ffocws ar waith ataliol. Ystyriwyd bod y Ddeddf yn ffordd bwysig o ymateb i'r heriau hyn ar y cyd. Yn yr un modd, tanlinellodd awdurdodau tân ac achub sut mae'r Ddeddf yn darparu cyfle i atgyfnerthu trefniadau cydweithredu a chynyddu gwaith ataliol.


25 Aeth rhai cyrff cyhoeddus ymhellach gan ddweud bod y Ddeddf yn angenrheidiol yn eu barn nhw. Roedd cyrff iechyd, llywodraeth ganolog a chyrff a noddir ac awdurdodau tân ac achub yn gymesur yn fwy tebygol o'i disgrifio fel hyn. Tueddai hyn i fod am eu bod yn credu y gallai'r Ddeddf helpu i gyflenwi gwasanaethau mwy cynaliadwy a sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion.

26 Fodd bynnag, er i'r rhan fwyaf o gyrff ddweud eu bod yn ystyried y Ddeddf yn gyfle, nododd ambell un ei bod hefyd yn ddiangen, yn bennaf am eu bod o'r farn bod y Ddeddf yn deddfu ar gyfer pethau roeddent eisoes yn eu gwneud neu'n ceisio eu gwneud. Ystyriwyd ei bod yn atgyfnerthu neu'n datblygu polisi, deddfwriaeth neu arfer da cydnabyddedig blaenorol. Serch hynny, roedd cyrff yn aml yn gadarnhaol ynghylch y cyfle i adolygu'r hyn maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud yn sgil y Ddeddf.

27 Mae ymatebion llawer o awdurdodau lleol yn dangos eu bod yn teimlo bod y Ddeddf wedi cadarnhau cynnydd roeddent eisoes yn ei wneud, fel datblygiadau ym maes cynllunio strategol a chydweithredu. Roedd rhai o'r awdurdodau lleol hyn wedi bod yn rhan o raglen 'Mabwysiadwyr Cynnar' CLILC.[15] Tra bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn awyddus i gydnabod gwerth y Ddeddf, gwnaeth rhai hefyd gwestiynu amseriad ei chyflwyno. Nodwyd y byddai'n arbennig o anodd ei gweithredu, o ystyried y gostyngiad mewn capasiti ac adnoddau.

28 Ychydig iawn o gyrff a ddywedodd fod y Ddeddf yn tynnu eu sylw oddi ar bethau eraill. Nododd y rhai a ddywedodd hynny fod hyn oherwydd y bydd angen iddynt neilltuo amser ac adnoddau i'w gweithredu, ac nid am eu bod o'r farn nad oedd yr egwyddorion o gymorth.

Arddangosyn 1 – Galw am dystiolaeth cwestiwn 1a: Sut fyddech chi'n disgrifio'r Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch sefydliad?[16]




29 Er y gallai rhai cyrff cyhoeddus fod wedi bod yn gweithredu egwyddorion y Ddeddf neu'n gweithio tuag atynt cyn ei chyflwyno, yr her sy'n eu hwynebu yw nodi ble mae'r Ddeddf yn eu gwthio i fynd ymhellach. Bydd angen iddynt fyfyrio ar gryfderau a gwendidau a chyfleoedd i wella'r ffordd maent yn cyflawni'r pum ffordd o weithio. Bydd angen iddynt ystyried a oes angen iddynt gyflawni'r pum ffordd o weithio yn fwy cyson neu'n fwy systematig.

30 At hynny, mae'n bwysig cofio nad yw'r pum ffordd o weithio yn ddiben ynddynt eu hunain. Maent yn ffordd o helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y nodau llesiant cymaint â phosibl. Er enghraifft, nid yw'r ffaith bod cyrff cyhoeddus yn cydweithredu yn ddigon; dylent hefyd geisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy'r cydweithredu hwnnw.

15 Gweithiodd CLILC gydag 11 o gynghorau a holl awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru fel mabwysiadwyr cynnar.
16 Roedd modd i gyrff cyhoeddus dicio cymaint o flwchau yr oeddent yn eu gweld yn berthnasol.


**Mewn gwaith yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwahaniaethu rhwng y cyrff hynny sydd wedi bod yn gwneud cynnydd wrth weithredu egwyddorion y Ddeddf ers peth amser a'r rhai sy'n nodi eu bod wedi gwneud hynny, ond sydd wedi methu â chydnabod y newid y mae'n ceisio ei gyflwyno.**

31 Gwnaethom hefyd ofyn i gyrff cyhoeddus ddisgrifio'r newid roeddent yn bwriadu ei wneud er mwyn gweithredu'r Ddeddf. Gofynnwyd iddynt a oeddent yn bwriadu canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, ailgysoni neu addasu gweithgareddau presennol neu drawsnewid yr hyn maent yn ei wneud. Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, gwnaethom ofyn hyn fel rhan o'n galwad am dystiolaeth ac yn ystod cyfweliadau.

32 Ymddengys fod bron pob corff cyhoeddus yn awyddus i bwysleisio y byddant yn sicrhau cydymffurfiaeth yn ogystal ag ailgysoni, addasu neu drawsnewid yr hyn maent yn ei wneud. Dengys eu hymatebion nad ydynt o'r farn bod y categorïau hyn yn gwrthdaro.

33 Er bod ymatebion wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal nag ar gyfer y cwestiwn blaenorol, nododd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus y byddent yn defnyddio'r Ddeddf i'w helpu i drawsnewid eu ffordd o weithio, yn benodol drwy wella prosesau gwneud penderfyniadau a gwaith cynllunio strategol. Maent hefyd yn bwriadu defnyddio'r Ddeddf i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau mawr maent yn eu hwynebu, cyflenwi gwasanaethau mwy cynaliadwy, cyflawni gwell canlyniadau a sicrhau newid diwylliant ac ymddygiad.

Arddangosyn 2 – Galw am dystiolaeth cwestiwn 1b: Sut fyddech chi'n disgrifio'r newid yr ydych chi'n bwriadu ei wneud er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf?[17]




34 Mae ymatebion cyrff cyhoeddus yn dangos eu bod yn ystyried y Ddeddf yn gyfle ar y cyfan a'u bod yn cydnabod y gellir ei gweithredu'n eang. Gwelant y potensial iddi wella'r hyn maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud.

17 Roedd modd i gyrff cyhoeddus dicio cymaint o flwchau yr oeddent yn eu gweld yn berthnasol.

## Gall cyrff cyhoeddus ddarparu enghreifftiau o'r ffordd maent yn defnyddio'r Ddeddf i newid eu ffordd o weithio, ond ni allant ddisgrifio'r ffordd maent yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn systematig eto

### Gwnaeth y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion llesiant cyntaf yn 2017 a bu modd iddynt ddarparu rhai enghreifftiau o'r ffordd roeddent wedi cyflawni'r pum ffordd o weithio fel rhan o'r broses honno

35 Roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion llesiant cyntaf erbyn mis Ebrill 2017. Rhagnododd y Ddeddf amserlen gynllunio heriol ar gyfer pennu amcanion llesiant ac mae'n bwysig cofio nad oedd yr un o'r 44 corff yn dechrau â llechen lân. Roedd gofyn i rai cyrff gyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf hanner ffordd drwy gylch cynllunio oedd eisoes ar waith. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bu'n rhaid iddynt gyhoeddi eu hamcanion llesiant yn fuan cyn yr etholiadau llywodraeth leol.

36 Mae'r amserlen wedi bod yn arbennig o heriol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bu'n ofynnol iddynt gyhoeddi asesiad o lesiant erbyn mis Mai 2017; ceisio barn y Comisiynydd am eu hamcanion drafft; ac ymgynghori ar y cynllun llesiant terfynol ac yna ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Mae'r ffaith bod cyrff unigol wedi gorfod cyhoeddi eu hamcanion cyn byrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd wedi'i nodi'n rhwystr i integreiddio gan rai (gweler paragraff 50).

37 O ganlyniad i'r heriau hyn, dilynodd cyrff cyhoeddus drywydd gwahanol i gysoni neu integreiddio eu hamcanion llesiant â strategaethau ac amcanion corfforaethol a fodolai eisoes. Maent wedi tueddu i naill ai cyflwyno eu hamcanion llesiant yn lle eu hamcanion corfforaethol blaenorol neu maent wedi pennu amcanion llesiant yn ychwanegol at eu hamcanion corfforaethol.

38 Dewisodd ambell gorff i beidio â phennu amcanion llesiant erbyn y terfyn amser statudol. Yn hytrach, maent wedi rhannu eu bwriad i gyhoeddi amcanion llesiant yn y dyfodol agos yn hytrach na chreu haen ychwanegol o amcanion corfforaethol neu 'ôl-osod' gofynion y Ddeddf i gynlluniau a strategaethau sy'n bodoli eisoes. Gwnaeth cyrff eraill adolygu eu hamcanion corfforaethol presennol yn erbyn gofynion y Ddeddf ac ystyried eu bod yn addas at y diben neu fod angen eu diwygio ychydig.

39 Dywedodd ambell gorff cyhoeddus ei fod yn bwriadu diwygio ei amcanion llesiant yn fuan ar ôl eu pennu. Ymhlith y rhesymau roedd:


- aelodaeth newydd mewn awdurdodau lleol, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2017;
- cyfleoedd i gysoni prosesau cynllunio wrth i gynlluniau a strategaethau eraill ddod i ben, fel y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ym maes iechyd;
- cyfleoedd i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn adlewyrchu amcanion llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar ôl mis Mai 2018; a
- dymuniad i wella'r broses o bennu amcanion llesiant.

40 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn, gan y bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol asesu sut mae amcanion llesiant wedi'u pennu fel rhan o waith archwilio yn y dyfodol.

41 Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus nodi pa mor wahanol oedd y broses o gymharu â'r broses o bennu amcanion corfforaethol yn y gorffennol. Gofynnwyd iddynt a oedd y broses yr un peth, p'un a wnaethant ambell beth neu sawl peth yn wahanol neu p'un a wnaethant newidiadau sylweddol.

42 Ni ddywedodd yr un corff cyhoeddus fod y broses yr un peth ag ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod wedi gwneud ambell beth neu sawl peth yn wahanol. Ychydig iawn a ddywedodd fod y broses yn llawer gwell na blynyddoedd blaenorol.

Arddangosyn 3 – Galw am dystiolaeth cwestiwn 2a: Mae eich sefydliad wedi pennu, neu mae yn y broses o bennu, amcanion llesiant. Pa mor wahanol oedd y broses o'i chymharu â'r broses ar gyfer pennu amcanion corfforaethol yn y gorffennol?



43 Er i'r rhan fwyaf o gyrff nodi eu bod wedi gwneud ambell beth neu sawl peth yn wahanol, roeddent yn aml yn methu â rhoi esboniad manwl o 'sut' neu roi enghreifftiau penodol o'r ffordd y cyflawnwyd y pum ffordd o weithio. Roedd cyfeiriadau at sut y cyflawnwyd y pum ffordd o weithio yn dueddol o ymwneud â chydweithio, cynnwys neu integreiddio.

44 Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol iddynt ddefnyddio gwaith a wnaed ganddynt drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn eu helpu i ddatblygu eu hamcanion llesiant. Disgrifiwyd sut y gwnaethant ddefnyddio asesiad o lesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'u sail dystiolaeth, fel y gwnaeth rhai cyrff iechyd.

45 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol at y ffordd roeddent wedi ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant. Nid oedd bob amser yn glir sut roedd hyn yn wahanol i'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed ganddynt yn y gorffennol. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai y ffordd roeddent wedi defnyddio'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu'r asesiad o lesiant.

46 Dywedodd y rhan fwyaf o gyrff iechyd eu bod wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel rhan o'r broses o ddatblygu eu hamcanion llesiant, ond ychydig iawn a gyfeiriodd at ymgysylltu â'r cyhoedd (y tu hwnt i ddefnyddio canlyniadau unrhyw waith ymgysylltu a gafwyd yn yr asesiad o lesiant). Dywedodd ambell un eu bod yn bwriadu eu cynnwys yn fwy wrth ddiwygio eu hamcanion llesiant.

47 Yn yr un modd, roedd llywodraeth ganolog a chyrff a noddir yn dueddol o gynnwys staff a rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant a nododd rhai eu bod wedi cynnwys cylch ehangach nag a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, dim ond ambell un o'r cyrff hyn oedd wedi cynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant, ond mae eraill wedi lansio ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd mawr ers hynny.

48 Dywedodd rhai cyrff eu bod wedi cymryd camau mwy integredig drwy gynnwys gwahanol randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn eu helpu i nodi sut y gallent wneud cyfraniad ehangach at y nodau llesiant. Fodd bynnag, nododd dadansoddiad y Comisiynydd o amcanion llesiant:

> 'Overwhelmingly, objectives have a tone of improving the economic and social well-being of localities, with little emphasis on the environment or culture – despite the need to demonstrate how well-being objectives contribute to each of the seven goals.'

49 Felly, er y gallai cyrff cyhoeddus deimlo eu bod wedi gwella'r broses, nid yw hyn o reidrwydd wedi arwain at amcanion llesiant sy'n adlewyrchu'r holl agweddau ar lesiant.

50 Gwnaeth rhai cyrff, yn arbennig cyrff iechyd, gyfeirio at yr amserlen statudol a'r ffaith ei bod yn peri her i gydweithio ac integreiddio, o ystyried ei bod yn gofyn i gyrff unigol gyhoeddi eu hamcanion llesiant cyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi eu rhai nhw. Dywedodd rhai eu bod yn bwriadu adolygu eu hamcanion llesiant eu hunain ar ôl i amcanion y byrddau gwasanaethau cyhoeddus gael eu cyhoeddi.

51 Prin oedd y wybodaeth am y ffordd roedd cyrff cyhoeddus wedi defnyddio'r ffordd 'hirdymor' o weithio er mwyn eu helpu i bennu eu hamcanion llesiant ac roedd llai o wybodaeth am waith 'ataliol' (er y gallai'r wybodaeth hon fod yn ymhlyg, o ystyried y cyfeiriadau at ddefnyddio asesiadau o lesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus[18]). Fodd bynnag, cyfeirir at weithgareddau ataliol mewn cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chysoni'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth ar lefel leol. Pwysleisiodd awdurdodau tân ac achub, yn arbennig, fod gwaith ataliol yn ffordd o weithio hirsefydledig a llwyddiannus iddynt hwy a rhoddwyd enghreifftiau, fel gweithio gyda phartneriaid iechyd a'r heddlu ar atal achosion o gwympo a diogelwch tân yn y cartref. Fodd bynnag, er y gall cyrff cyhoeddus fod yn gwneud gwaith ataliol, nid yw'n glir yn gyffredinol sut maent wedi ystyried gwaith ataliol fel rhan o'r broses o ddatblygu eu hamcanion llesiant.

52 Er y gall cyrff cyhoeddus deimlo iddynt gyflawni'r pum ffordd o weithio i raddau helaeth, nid yw bob amser yn glir sut roedd y broses yn wahanol na beth sydd wedi newid o ganlyniad. Mae dadansoddiad y Comisiynydd yn pwysleisio:

> 'At the moment, public bodies are committing to well-being objectives that largely resemble the corporate objectives they would have set prior to 2017.'

18 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi tanlinellu'n flaenorol wendidau yn y ffordd y mae asesiadau o lesiant wedi ystyried tueddiadau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory' yn nodi 'Methodd y mwyafrif o'r asesiadau ystyried mewn gwirionedd dueddiadau hirdymor y dyfodol na heriau polisi aml-genedliadol' ac 'roedd y negeseuon ymhlyg yn y data'n gofyn am archwiliad pellach er mwyn deall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol'. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory**, 2017

53 Mae'r Comisiynydd hefyd wedi dod i'r casgliad nad yw datganiadau llesiant bob amser yn 'transparent and that makes it difficult to build up trust with others and enable them to meaningfully get involved in the business of the organisation'. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i gyrff cyhoeddus gynnwys pobl yn y gwaith o ysgrifennu'r adroddiadau hyn fel eu bod yn fwy hygyrch yn y dyfodol.[19]

**Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl gweld yn glir sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wedi'u defnyddio er mwyn pennu amcanion llesiant cyrff cyhoeddus.**

**Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu i ba raddau y caiff y pum ffordd o weithio eu hystyried a'u cyflawni'n systematig drwy'r broses o bennu amcanion llesiant. Ni ddylai'r ffyrdd o weithio gael eu hystyried yn hierarchaeth ac ni ddylid ystyried nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd.**

**ADNODD**

**Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru**

Lluniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr adroddiad 'Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru', sy'n cynnig tystiolaeth ymchwil a barn arbenigol mewn perthynas ag atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau er mwyn cyflawni economi gynaliadwy, cymdeithas ffyniannus a'r lefelau iechyd a llesiant gorau posibl i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad ar gael yma.

## Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd camau er mwyn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu holl waith

54 Fel y nodwyd yn barod, mae cyrff cyhoeddus, aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn arbennig, wedi, yn gyffredinol, neilltuo amser ac adnoddau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi amcanion llesiant, asesiadau o lesiant a datblygu cynlluniau llesiant.[20]

19 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn**, 2018
20 Awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd a Cyfoeth Naturiol Cymru yw aelodau statudol byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Rhagor o fanylion am aelodaeth byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

55 Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ysbryd ac uchelgais y Ddeddf, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut maent yn cyflawni datblygu cynaliadwy ym mhopeth maent yn ei wneud. Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus nodi'r hyn roeddent yn ei wneud er mwyn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn meysydd gwaith eraill.

56 Mae'r gweithgarwch a ddisgrifiwyd ganddynt yn perthyn yn fras i'r categorïau canlynol:

- newid diwylliant ac ymddygiad
- llywodraethu
- cynllunio strategol, perfformiad a rheoli risg
- cyflawni prosiect/ cyflenwi gwasanaeth

57 Darparodd y rhan fwyaf o gyrff enghreifftiau o'r ffordd maent wedi ceisio gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf. Yn gyffredinol, gwnaed hyn drwy hyfforddiant fel:

- cyfeirio ati mewn sesiynau sefydlu corfforaethol ar gyfer staff, aelodau bwrdd neu aelodau etholedig;
- cyfeirio ati mewn rhaglenni arwain a rheoli; neu
- hyfforddiant penodol i staff ac aelodau bwrdd, cabinet neu bwyllgorau.

58 Y tu hwnt i hyn, prin oedd yr enghreifftiau a oedd yn dangos sut mae cyrff cyhoeddus wedi ceisio dechrau newid diwylliant ac ymddygiad. Gwnaeth rhai cyrff gyfeirio at y canlynol:

- defnyddio mentoriaid neu ffrindiau beirniadol er mwyn rhoi cyngor a helpu i hyrwyddo'r pum ffordd o weithio;
- annog unigolion i asesu neu fyfyrio ar y ffordd maent yn cyflawni'r pum ffordd o weithio;
- casglu a rhannu astudiaethau achos er mwyn gwneud y Ddeddf yn 'real' i bobl mewn gwahanol rannau o'r sefydliad a'u helpu i'w rhoi ar waith yn eu rolau bob dydd;
- datblygu ffyrdd o gydnabod a gwobrwyo achosion o gyflawni'r pum ffordd o weithio; neu
- wneud rheolwyr yn atebol am gyflawni canlyniadau fel eu bod yn gweld eu cyfrifoldebau fel rhai trawsbynciol.

Bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried y ffordd orau o sicrhau newid cadarnhaol o ran diwylliant ac ymddygiad, o ystyried mai dyma un o'r prif gyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf yn eu barn nhw (gweler paragraff 23 a'r enghraifft o sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu pobl, arweinyddiaeth a diwylliant).

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Datblygu pobl, arweinyddiaeth a diwylliant yn Llywodraeth Cymru**

Y llynedd, mireiniodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen dysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chynrychioli mewn sesiynau sefydlu, sesiynau arwain a sesiynau hyfforddi mwy arbenigol. Ers hynny mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cyflwyno adolygiad ehangach o waith rheoli perfformiad, trefniadau camu ymlaen mewn gyrfa, hyfforddiant arwain a rhaglenni datblygu eraill. Bydd y fenter sydd â'r nod o baratoi at y dyfodol yn edrych o'r newydd ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli, yn cydnabod, yn datblygu ac yn gwobrwyo pobl, gan sicrhau bod blaenoriaethau cyflawni'r Cabinet a'r pum ffordd o weithio wrth wraidd yr hyn a ddisgwylir gan dimau ac unigolion. Mae pob ymarfer recriwtio i'r Uwch Wasanaeth Sifil bellach yn gofyn i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf fel cyd-destun ein gwaith. Mae'r fenter yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth sifil galluog, hyderus a gwydn a all weithio mewn ffyrdd newydd, cydweithio ar draws ffiniau portffolio traddodiadol a chynnwys rhanddeiliaid a dinasyddion er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i Gymru.

59 Darparodd rhai cyrff, yn arbennig awdurdodau lleol, enghreifftiau yn ymwneud â llywodraethu. Efallai fod hyn yn adlewyrchu barn cyrff cyhoeddus bod y Ddeddf yn cynnig cyfle i wella prosesau gwneud penderfyniadau (gweler paragraffau 23 a 33). Gallai hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethu yn gallu helpu i gyflwyno newidiadau ar draws sefydliadau mawr.

60 Gwnaeth rhai awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog a chyrff a noddir, ac ambell un arall gyfeirio at adnoddau asesu effaith. Cyfeirir yn aml at y rhain fel 'Asesiadau Effaith Integredig' neu 'Asesiadau o'r Effaith ar Lesiant' ac maent yn ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy mewn prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Maent yn adeiladu ar brosesau sydd wedi'u datblygu er mwyn asesu effaith bosibl newidiadau mewn polisi ac arfer ar feysydd fel cydraddoldeb, hawliau plant neu gynaliadwyedd amgylcheddol. Fel gyda phob asesiad o effaith, mae'n bwysig i'r cyrff cyhoeddus sy'n eu defnyddio sicrhau eu bod:

- yn cael eu cynnal o'r dechrau, yn hytrach na thua diwedd y broses;
- yn seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd da, sy'n cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol (a ategir gan gyfranogi effeithiol);

- yn defnyddio sgiliau a gwybodaeth amrywiaeth o unigolion;
- wedi'u cynllunio i gefnogi myfyrio gwirioneddol ac yn cael eu hystyried yn ffordd o greu syniadau ar sut i wella, yn ogystal â lliniaru effeithiau negyddol;
- yn cynnwys elfen o her neu sicrhau ansawdd;
- yn cael eu hystyried o ddifrif fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a chraffu; a
- bod y canlyniadau a'r dulliau lliniaru yn cael eu monitro.[21]

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Datblygu Asesiad o'r Effaith ar Lesiant yng Nghyngor Sir Ddinbych**

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu Asesiad ar-lein a rhyngweithiol o'r Effaith ar Lesiant sy'n cysylltu ymchwil â thystiolaeth. Mae'r asesiad yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n herio pobl i fyfyrio ar eu dulliau gweithredu a dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nesaf, gofynnir i bobl ystyried yr effaith debygol mewn perthynas ag amryw o themâu a materion. Caiff pobl eu hannog i'w gwblhau fel grŵp, gan gynnwys staff ar lefelau gwahanol o wasanaethau gwahanol a hyd yn oed bartneriaid.

**Beth rydych wedi'i ddysgu?**

O ganlyniad i'r dull newydd o weithredu, gwelwn ddull mwy trylwyr o gynnal asesiadau effaith. Mae aelodau yn meddu ar wybodaeth fwy cytbwys o ansawdd gwell ac mae gan drigolion wybodaeth dryloyw a manwl er mwyn ein herio ni ynghylch ein penderfyniadau. Mae hyn wedi arwain at newid cyfeiriad cynigion; gyda ffocws o'r newydd ar gynnwys y gymuned. Mae'r dull newydd o weithredu yn arwain at newid diwylliant o fewn ein sefydliad: mae ein hymwybyddiaeth o effaith yr hyn a wnawn yn cynyddu.

**Sut rydych yn bwriadu parhau i ddatblygu'r Asesiad o'r Effaith ar Lesiant?**

Rydym yn parhau i ddilyn trywydd dysgu gweithredol wrth i'n Hasesiad o'r Effaith ar Lesiant aeddfedu. Rydym yn bwriadu rhannu'r wefan drwy sicrhau ei bod ar gael am ddim i gymunedau ei defnyddio.

21 Gellir cael rhagor o wybodaeth a phwyntiau dysgu trosglwyddadwy ar wefan Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb y GIG

61 Ymhlith y newidiadau llywodraethu eraill roedd diweddaru templedi adroddiadau penderfyniadau neu bwyllgorau a thempledi cynlluniau busnes neu ddiweddaru dogfennau fel y Cyfansoddiad, y Cod Llywodraethu Corfforaethol neu'r Cod Ymddygiad.

62 Ychydig iawn o gyrff a gyfeiriodd yn benodol at y saith maes lle mae angen i'r newid ddigwydd a nodir yn y canllawiau statudol.[22] Fodd bynnag, roedd cyfeiriadau at newidiadau i brosesau cynllunio, perfformiad neu reoli risg, yn ogystal â chynllunio'r gweithlu (gweler y paragraffau perthnasol ar newid diwylliant ac ymddygiad).

63 Mae rhai cyrff wedi ceisio ymgorffori gofynion y Ddeddf yn eu cynlluniau gwasanaeth a busnes drwy, er enghraifft, newid templedi neu ganllawiau a diweddaru prosesau hunanwerthuso. Hefyd, cyfeiriodd ambell gorff at ddiweddaru strategaethau rheoli risg a chofrestri risg er mwyn adlewyrchu'r nodau llesiant.

64 Yn ogystal, roedd nifer fach o gyfeiriadau at adlewyrchu'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio mewn:

- grantiau a threfniadau caffael a chomisiynu
- rhaglenni trawsnewid/ newid
- cynigion am arian cyfalaf ac achosion busnes ar gyfer buddsoddiadau.

65 Darparodd y rhan fwyaf o gyrff enghreifftiau ymarferol o'r ffordd roeddent yn cyflawni'r pum ffordd o weithio wrth gyflawni prosiectau neu gyflenwi gwasanaethau. Yn gyffredinol, roedd yr enghreifftiau hyn yn hŷn na'r Ddeddf, ond roedd y cyrff serch hynny o'r farn eu bod yn enghreifftiau da o'r ffordd y gallai'r Ddeddf gael ei gweithredu. Cafwyd ambell enghraifft lle roedd cyrff wedi ystyried y nodau a'r pum ffordd o weithio yn benodol.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Parciau Cenedlaethol Cymru: Cydweithio ar gyfer iechyd a llesiant**

Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn disgrifio eu hunain fel 'asedau iechyd' gan gydnabod y ffordd y gallant helpu unigolion a chymunedau i gynnal neu wella eu hiechyd a'u llesiant. Maent yn cydweithio â'i gilydd a phartneriaid eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth o fuddiannau iechyd a llesiant y parciau, datblygu polisi ac arfer seiliedig ar dystiolaeth a chynyddu'r cyfleoedd i bobl fwynhau'r amgylchedd naturiol. Ceir rhagor o wybodaeth a manylion am brosiectau ar wefan y parciau cenedlaethol.

22 Y saith maes yw cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg a rheoli perfformiad. Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: **Rhannu Dyfodol Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, 2016**

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Cyngor Celfyddydau Cymru, Creu Cymunedau Cyfoes**

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi sefydlu rhaglen ‘Creu Cymunedau Cyfoes’, sy’n cynnwys saith prosiect seiliedig ar le, sy’n ariannu consortiwm lleol o sefydliadau (gan gynnwys sefydliadau nad yw wedi gweithio gyda nhw o’r blaen fel Cymdeithasau Tai a datblygwyr masnachol) er mwyn gweithio gyda chymunedau lleol i ailddychmygu eu hardal leol dros gyfnod o dair blynedd. Mae wedi anelu at herio ei fethodolegau arferol ac mae wedi gweld canlyniadau yn newid yn sgil hynny.

**Sut mae cyflawni’r pum ffordd o weithio wedi eich helpu?**

Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar weithio mewn ardaloedd lleol er mwyn adeiladu ar asedau cymunedau. Roedd y pum ffordd o weithio yn fframwaith deddfwriaethol delfrydol ar gyfer hyn. Gwnaeth ein hannog i fod yn ddewr a chymryd camau arloesol, ynghyd â’n galluogi i gysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i ddod yn bartneriaid.

**Beth rydych wedi’i ddysgu?**

Hoffem fynd y tu hwnt i weithio ‘gyda’ chymunedau a chefnogi gwaith ‘gan’ gymunedau. Mae hyn yn thema allweddol i ni – mynd i’r afael â dull gweithredu patriarchaidd a biwrocrataidd, gan ei agor i fyny o’r brig i’r bôn, er mwyn bod yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol.

Gwnaethom ddysgu bod angen i ni osgoi’r awydd i gyflawni canlyniadau yn gyflym drwy eu diffinio ein hunain ac yna daflu arian atynt. Drwy sicrhau bod arian ar gael am gyfnod o dair blynedd heb ddiffinio canlyniadau a phrosesau bu modd i ni gyflawni canlyniadau nas rhagwelwyd a chostiodd lawer llai na rhywbeth a fyddai wedi’i gynllunio yn y modd arferol.

Drwy weithio gyda phartneriaid newydd, daethom i sylweddoli ein bod wedi sefydlu prosesau a gweithdrefnau sefydliadol sy’n golygu nad yw’n hawdd gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae gweld y mathau hyn o broblemau yn codi yn ddefnyddiol yn y pen draw, oherwydd gellir mynd i’r afael â nhw a’u dileu ar gyfer y dyfodol.

Mae creadigrwydd yn bwysig iawn mewn gwaith adfywio. Yn aml iawn, rydym yn methu cyfleoedd i ddileu ein materion a’n problemau cyfredol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, a chynnwys trigolion yn y gwaith o greu’r mannau maent am fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

66 Dywedodd ambell gorff wrthym eu bod wedi rhoi trefniadau ar waith i ddatblygu, goruchwylio a gweithredu eu dull o ymdrin â'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys mesurau fel nodi hyrwyddwr lefel uwch, sefydlu bwrdd neu grŵp llywio, asesu eu 'parodrwydd' a datblygu cynlluniau gweithredu.

67 Roedd rhai cyrff yn agored am y ffaith bod ganddynt waith i'w wneud o hyd er mwyn parhau i ddatblygu a gwella eu dull o weithredu'r Ddeddf. Aeth eraill ymhellach, gan egluro bod y gwaith roeddent wedi'i wneud hyd yn hyn yn ymwneud â gosod y sylfaen ac y byddai'r camau nesaf yn canolbwyntio ar newid diwylliant a chyflenwi gwasanaethau.

68 Cyfeiriodd ambell gorff at y ffaith nad oes digon o amser a lle i fyfyrio, o ystyried y pwysau ar adnoddau ac amserlen gynllunio'r Ddeddf. Mae rhai o'r farn bod y gofynion cynllunio ac adrodd yn draddodiadol ac yn groes i fwriad y polisi. Mae rhai yn meddwl y gallai'r ddeddfwriaeth arwain at ffocws ar gydymffurfiaeth, yn hytrach nag ysgogi'r ymateb arloesol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, y gobeithir amdano. Mae rhywfaint o bryder hefyd y gallai adolygiad allanol, boed hynny gan Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiynydd neu gyrff arolygu a rheoleiddio eraill arwain at ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth (gweler hefyd baragraff 89).

69 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o heriau mewnol ac allanol sy'n ei gwneud yn anodd gweithredu deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, mae risg bod rhai yn ystyried y Ddeddf fel 'rhywbeth arall i'w wneud'. Oni fydd y cyrff a'r unigolion hynny yn dechrau gweld sut y gall datblygu cynaliadwy eu helpu i ymdrin â heriau mawr o ran y gyllideb a gwasanaethau, yn hytrach na'i weld fel baich ychwanegol, ni fyddant yn llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle y mae'r Ddeddf yn ei gynnig.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi'n glir y bydd yn cymryd amser i gyrff cyhoeddus weithredu egwyddorion y Ddeddf yn llawn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn croesawu hunanfyfyrdod onest ar gynnydd a bydd yn ystyried y ffaith y bydd yn cymryd amser i gyrff ystyried yn llawn sut i roi'r Ddeddf ar waith a chyflawni newid gwirioneddol ac ystyrlon. Yn y tymor canolig a'r hirdymor, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddangos sut mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn maent yn ei wneud.**

**Bydd gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yn asesu i ba raddau mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r ffyrdd o weithio ac ni fydd yn canolbwyntio ar weithredu prosesau penodol nac ar gydymffurfio â'r amserlen cynllunio ac adrodd.**

## ASTUDIAETH ACHOS

**‘Prosiect Llesiant’ Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro**

Mae BIP Caerdydd a’r Fro yn creu Gardd Wenyn yn y Berllan yn Ysbyty Athrofaol Llandoche, sy’n fuddiol mewn sawl ffordd. Caiff y prosiect ei ddatblygu ar y cyd â staff, cleifion, gofalwyr, plant ysgol, ac academyddion iechyd er mwyn cefnogi’r BIP wrth iddo ddatblygu dyfodol cynaliadwy.

Bydd y dirwedd, y dyluniad, a phlannu blodau penodol yn galluogi ymchwilwyr lleol i brofi’r cysylltiad â mêl cryfder gwrthfacterol, gan adeiladu ar waith yr Athro Les Bailleand a’i gydweithwyr o’r Ysgol Fferylliaeth, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, Prifysgol Caerdydd. Maent wedi nodi nifer o gyfansoddion gwrthfacterol newydd a ddaw o blanhigion mewn mêl a laddodd ‘arch-fygiau’ ysbyty sy’n gallu gwrthsefyll gwrthfiotigau, fel MRSA. Gyda’r tîm Ymchwil a Datblygu mwyaf yn y GIG, gall fod hefyd gyfleoedd i dreialu therapiwteg bosibl ledled Caerdydd a’r Fro.

Bydd y prosiect yn gwella bioamrywiaeth y Berllan ac yn helpu i beillio’r coed. Mae gwenyn yn hanfodol i berllan iach, gan sicrhau bod pawb ar safle Ysbyty Llandoche a’r gymuned leol yn gallu mwynhau ardal a wnaiff wella eu hiechyd a’u llesiant, tra’n helpu cleifion i wella hefyd.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Cyfoeth Naturiol Cymru: Cydlynu cydweithredu ac ymgysylltu ar Afon Gafenni**

Mae Afon Gafenni yn afon fechan yn y de-ddwyrain sy’n llifo o’i tharddle drwy’r Fenni ac i Ardal Gadwraeth Arbennig Brynbuga. Yn ôl y dystiolaeth, nid yw’r afon yn cyflawni’r statws DA gofynnol fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru ati i gydweithredu ac i ymgysylltu â’r gymuned leol a ddangosodd gryn ddiddordeb a pharodrwydd i helpu i leddfu pwysau amgylcheddol. Nid oedd y cyfleoedd a gododd yn ymwneud â gwella ansawdd dŵr yn unig, gyda phobl yn dangos diddordeb mewn datblygu a rheoli cynefinoedd cyfagos at ddibenion cadwraeth a gwerth amwynder.

Drwy ddwyn ynghyd ystod eang o randdeiliaid bu modd ehangu’r allbynnau ac ychwanegwyd gwerth sylweddol. Cafodd opsiynau rheoli tir cynaliadwy wedi’u harwain gan randdeiliaid eu cynnwys yn amserlenni cynnal a chadw Rheoli’r Perygl o Lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Bu’r prosiect o fudd mewn sawl ffordd, gan gynnwys rheoli ardal drefol werdd yn gynaliadwy, rhoi coed a dorrwyd i lawr i’r grŵp coetir lleol a’r ysgol goedwig leol er mwyn gwneud gwaith crefft a’u gwerthu, yn ogystal â gwneud yr ecosystem yn fwy cadarn.

ASTUDIAETH ACHOS

**Rhagnodi Cymdeithasol yn Nhorfaen**

Mae rhagnodi cymdeithasol yn ymyriad sy'n ceisio bodloni gofynion cleifion o ran cymorth anfeddygol yn y gymuned. Cafodd model rhagnodi cymdeithasol Torfaen ei ddatblygu mewn ymateb i'r angen i gysylltu gofal sylfaenol yn well ag amrywiaeth o wasanaethau sy'n bodoli ledled y gymuned ac yn y sector cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol salwch a hyrwyddo hunangymorth. Mae'n bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae'r gwasanaeth ar gael mewn meddygfeydd felly mae'n ddewis amgen ymarferol i ymyrraeth feddygol. Mae 'rhagnodwyr cymdeithasol' ym mhob meddygfa sy'n cymryd rhan am hanner diwrnod yr wythnos. Cânt atgyfeiriadau gan unrhyw un sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol neu gan gleifion eu hunain. Mae'r meini prawf atgyfeirio yn cwmpasu unrhyw un sy'n profi problem gymdeithasol sy'n effeithio ar eu hiechyd corfforol a / neu feddyliol. Yna gwneir atgyfeiriadau at wasanaethau cymunedol ac maent yn perthyn yn fras i'r categorïau canlynol:

- ffordd o fyw iach
- teulu a blynyddoedd cynnar
- diogelu iechyd a diogelwch personol
- lles
- hunanofal a byw'n annibynnol
- gwaith, dysgu a sgiliau
- datblygu cymunedol a hamdden

Mae llawer o'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn agored i niwed ac maent mewn sefyllfaoedd cymhleth. Nodir anghenion sylfaenol drwy gynnal sgwrs, lle caiff eu canlyniadau dymunol eu llunio ar y cyd a chânt help i ddeall sut y gallant, gyda chymorth, gymryd camau i'w cyflawni.

## Mae angen i gyrff cyhoeddus nodi sut y byddant yn parhau i ddatblygu eu dull o ymdrin â'r Ddeddf fel y gallant gyflawni ei huchelgais a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir ganddi

### Mae cyrff cyhoeddus wedi nodi rhai camau gweithredu er mwyn parhau i ymgorffori'r Ddeddf ond nid ydynt yn siŵr sut i fesur newidiadau mewn diwylliant a ffyrdd o weithio

70 Tra'n cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflwyno newid ystyrlon, roeddem yn awyddus i ddeall beth mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu ei wneud er mwyn parhau i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

71 Gwnaethom ofyn iddynt ddisgrifio sut beth fyddai llwyddiant. Cafodd y cwestiwn hwn ei ddehongli mewn sawl ffordd a chafwyd amrywiaeth o ymatebion iddo. Cyfeiriodd rhai cyrff at brosesau monitro perfformiad ffurfiol. Roeddent yn dueddol o awgrymu y byddai ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawn yn arwain at well canlyniadau, sef y prif fesur o lwyddiant. Cyfeiriwyd at y mesurau roeddent wedi'u rhoi ar waith ar gyfer eu hamcanion llesiant neu fesurau a fodolai eisoes, fel y dangosyddion cenedlaethol neu Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd.[23 24 25]

72 Dewisodd eraill ddisgrifio sut y byddai'r sefydliad yn edrych ac yn teimlo a sut y byddent yn gweithio'n wahanol. Roedd eu henghreifftiau yn cynnwys:

- mathau gwahanol o gwestiynau a her mewn cyfarfodydd bwrdd, cabinet, craffu a phwyllgorau;
- gwell dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws y sefydliad, a ddangosir wrth i bobl ei gweithredu'n eang yn eu rolau bob dydd;
- gwell cydberthnasau â chymunedau a chymunedau mwy gwydn;
- gwasanaethau, gweithlu a chyllid mwy cynaliadwy;
- newidiadau i fodelau gwasanaeth sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac sydd o natur ataliol; a
- mwy o integreiddio â phartneriaid, gan gynnwys drwy rannu asedau, cyfuno adnoddau a chyflawni mentrau ar y cyd.

23 Gweler hefyd ddogfen Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn** on 2018 a disgwyliadau'r Comisiynydd o ran y ffordd y bydd cyrff cyhoeddus yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant ac effeithiolrwydd camau i'w cyflawni.
24 Gwybodaeth am y dangosyddion cenedlaethol
25 Gwybodaeth am Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd.

73 Yn gyffredinol, ni roddodd cyrff cyhoeddus ddisgrifiad penodol o'r ffordd y byddent yn asesu eu cynnydd wrth weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ar y cyfan, ni wnaeth cyrff cyhoeddus ddisgrifio sut roeddent yn bwriadu mesur newid o ran ymddygiad a ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, roedd ambell enghraifft a chyfeiriad at gynlluniau i gasglu naratifau ac astudiaethau achos. Mae'n anodd mesur newid mewn ymddygiad, ond bydd yn bwysig i gyrff feithrin peth dealltwriaeth o faint o gynnydd maent yn ei wneud wrth weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhoddir enghraifft o'r ffordd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ceisio deall sut mae staff yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy isod.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Adnodd Hunanasesu BIP Aneurin Bevan o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Fel rhan o'i Raglen drosfwaol Ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae BIPAB wedi datblygu proses hunanasesu er mwyn ei helpu i ymgorffori'r Ddeddf fel rhan o'i waith. Mae wedi llunio 'datganiadau uchelgais' sy'n disgrifio sut y dylai pob is-adran a swyddogaeth gyflawni'r pum ffordd o weithio yn yr hirdymor. Yna bydd is-adrannau a swyddogaethau yn defnyddio'r hunanasesiad er mwyn eu helpu i ddeall i ba raddau maent yn bodloni'r datganiadau fel y gallant nodi'r hyn y gallant ei wneud, yn unigol ac ar y cyd, er mwyn gwneud cynnydd.

Mae nifer o egwyddorion dylunio pwysig yn sail i'r broses hunanasesu gan gynnwys:

- caiff y datganiadau uchelgais eu llunio ar y cyd gan weithwyr proffesiynol y GIG a fydd yn cymryd perchenogaeth ohonynt;
- ni fwriedir i'r broses fod yn asesiad o berfformiad na chydymffurfiaeth;
- bydd yr hunanasesiad yn fodd i dimau ac unigolion archwilio arfer gorau, cyfleoedd a rhwystrau;
- dylai'r broses gyfan ychwanegu gwerth a chael ei hymgorffori mewn gwaith cynllunio rheolaidd;
- bydd y broses yn ffordd bwysig o wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf; ac
- ni ddylai fod yn ymarfer untro ond yn hytrach gael ei ddefnyddio i annog gwelliant parhaus.

Gwnaeth BIPAB osod ffocws yr hunanasesiad ar ei is-adrannau galluogi, fel Cyllid, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chyfleusterau, yn ystod y cam cyntaf. Bydd is-adrannau sy'n delio â chleifion a swyddogaethau eraill yn rhan o gamau 2 a 3, a drefnir ar gyfer 2018-19 a 2019-20.

74 Pan ofynnwyd sut roeddent yn bwriadu cyflawni’r newid angenrheidiol, roedd atebion y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn ymwneud â’r categorïau a nodwyd yn flaenorol: newid diwylliant ac ymddygiad, llywodraethu, cynllunio strategol, perfformiad a rheoli risg neu gyflawni prosiect/ cyflenwi gwasanaeth.

75 Nododd rhai cyrff eu bod yn bwriadu parhau i ddatblygu gwaith yn y meysydd hyn. Er enghraifft, maent yn bwriadu parhau i:

- wella eu hasesiadau effaith a diweddaru templedi adroddiadau;
- ymgorffori’r Ddeddf mewn fframweithiau a chanllawiau cynllunio gwasanaeth a rheoli perfformiad;
- hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymestyn hyfforddiant i grwpiau newydd o aelodau etholedig, aelodau bwrdd neu staff; neu
- ddatblygu dogfennau strategol allweddol; nododd ambell gorff eu bod yn bwriadu datblygu amcanion a rennir.

Yn yr un modd, nododd cyrff eraill y byddent yn dechrau ar waith yn y meysydd hyn.

76 Rhoddodd ambell gorff enghreifftiau o brosiectau neu fentrau roeddent yn bwriadu eu datblygu, a oedd yn adlewyrchu’r Ddeddf yn eu barn nhw.

77 Hefyd cafwyd rhai cyfeiriadau penodol at y pum ffordd o weithio. Disgrifiodd rhai cyrff sut roeddent yn bwriadu newid eu cydberthynas â chymunedau a gwneud cymunedau’n fwy gwydn. Tueddai cyrff bach a noddir ddarparu camau gweithredu yn ymwneud â gwella neu ddatblygu dulliau sy’n cefnogi cydweithio neu gynnwys pobl. Roedd hyn yn cynnwys dod o hyd i ffordd effeithiol o ymgysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Er eu bod yn cydnabod y cyfle, mae cyfyngiadau mawr ar eu gallu i ymgysylltu â’r 19 i gyd (gweler paragraff 83).

78 Rhoddodd rhai cyrff fwy o fanylion am gynlluniau i’r dyfodol neu fwy o bwyslais ar feysydd a gweithgareddau roeddent wedi’u blaenoriaethu.

79 O ystyried yr heriau sydd eisoes wedi’u hamlinellu, efallai fod y diffyg eglurder a manylder cyffredinol o ran y ffordd y bydd cyrff cyhoeddus yn datblygu’r gwaith hwn ac yn asesu eu cynnydd i’w ddisgwyl. Fodd bynnag, bydd angen iddynt roi mwy o ystyriaeth i’r cwestiynau hyn os ydynt am ddefnyddio’r Ddeddf i drawsnewid eu ffordd o weithio (gweler paragraff 33).

## Mae heriau ynghlwm wrth weithredu'r Ddeddf ac mae gan randdeiliaid rôl i'w chwarae wrth helpu i'w hateb.

80 Nododd cyrff cyhoeddus nifer o rwystrau allanol, y dylai rhanddeiliaid eraill eu hystyried neu geisio eu datrys. Cyllid byrdymor, heb os, oedd y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd. Roedd cyrff cyhoeddus yn glir bod hyn yn amharu ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol yn yr hirdymor. Nododd rhai cyrff a noddir fod y llythyr cylch gwaith blynyddol yn peri'r un her. Yn gysylltiedig â hyn, nodwyd bod diffyg hyblygrwydd o ran y ffordd y gellir gwario arian grant a gofynion monitro anghymesur yn amharu ar waith cynllunio hirdymor a'r gallu i ganolbwyntio ar ganlyniadau.

81 Hefyd disgrifiodd rhai cyrff her cymhlethdod deddfwriaethol a'r ffaith ei bod yn anodd cyfuno gofynion statudol yn ymarferol. Yn benodol, cyfeiriwyd at yr angen i ddod o hyd i ffordd ymarferol o fodloni gofynion y Ddeddf tra hefyd yn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu ddeddfwriaeth gynllunio. Awgrymodd rhai y gallai cymhlethdod deddfwriaethol a 'baich' bodloni sawl gofyniad arwain at ymateb yn seiliedig ar gydymffurfiaeth.

82 Roedd rhai pryderon am ofynion adrodd cenedlaethol presennol a ffocws ar ddangosyddion, yr ystyriwyd eu bod yn tynnu sylw o ffocws ar ganlyniadau hirdymor a buddiannau ataliol. Hefyd, mynegodd rhai cyrff bryderon y gallai gofynion archwilio a rheoleiddio arwain at ffocws ar gydymffurfio â phroses, yn hytrach na hyrwyddo ysbryd y Ddeddf (gweler paragraffau 68, 88 ac 89).

83 Roedd cyrff cyhoeddus yn gadarnhaol ynghylch y cyfle a gynigir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd danlinellu rhai heriau y mae angen eu goresgyn os ydynt am lwyddo fel y bwriedir. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cymhlethdod yr amgylchedd llywodraethu partneriaeth. Mae i hyn oblygiadau o ran adnoddau i gyrff sydd angen cefnogi sawl partneriaeth, gan gynnwys sawl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Mae sicrhau cynrychiolaeth ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu sicrhau y gellir dylanwadu arno, yn gofyn am lawer iawn o adnoddau neu, i rai, nid yw'n bosibl o gwbl.[26]
- nid yw rhai partneriaid a allai fod yn ddylanwadol eto'n ymwneud â byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

26 Ym mis Ebrill 2016, sefydlwyd saith partneriaeth ranbarthol statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eu rôl yw arwain y gwaith o gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol ar lefel ranbarthol strategol mewn cydweithrediad agos ag iechyd.

- y gwahanol lefelau o ymrwymiad gan wahanol aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wahanol ffyrdd o weithio, a all fod yn anodd i gyrff sy’n aelodau o sawl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

84 At hynny, pwysleisiodd nifer o gyrff fod yr heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan adnoddau llai ac sy’n lleihau, pwysau ar adnoddau arwain a llai o gapasiti ar draws sefydliadau.

85 Dywedodd cyrff cyhoeddus y byddent yn gwerthfawrogi’r cymorth allanol canlynol er mwyn eu helpu i ymgorffori’r Ddeddf ymhellach:

- rhannu arfer, gan gynnwys y ffordd y caiff y pum ffordd o weithio eu cyflawni, rhannu enghreifftiau â buddiannau amlwg neu elw ar fuddsoddiad a mwy o rannu ar lefel genedlaethol ac ar draws sectorau;
- hyfforddiant, gan gynnwys ar dechnegau newid ymddygiad a chyflawni’r pum ffordd o weithio ar waith;
- arweiniad o ran y meysydd lle mae angen i newid ddigwydd; cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio’r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg a rheoli perfformiad (fel y nodir mewn canllawiau statudol);
- cymorth a chyngor mwy penodol i gyrff cyhoeddus ar eu hamcanion llesiant, yn debyg i’r hyn a gaiff byrddau gwasanaethau cyhoeddus; a
- hwyluso mwy o ymgysylltu a mwy o ddysgu ar y cyd rhwng aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

86 Mae’r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn gofyn am ymdrech ar y cyd. Bydd angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu dull hirdymor o weithredu er mwyn cyflawni’r lefel o newid y mae’r Ddeddf yn gofyn amdani a dywedant eu bod yn cydnabod hynny. At hynny, bydd angen i randdeiliaid allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, ystyried sut y gallant chwarae eu rhan wrth ddileu rhwystrau a darparu’r cymorth angenrheidiol.

87 Un ffordd y gall rhanddeiliaid allanol wneud hyn yw drwy greu lle i arloesi, caniatáu ‘methiannau’ a chydnabod dysgu. Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd cymryd risgiau mewn ffordd a reolir yn dda.

‘Ar yr amod y byddant [cyrff cyhoeddus] yn mynd ati i ddatblygu gwasanaethau newydd, i roi cynnig ar bethau newydd, i ddeall y risgiau ac ar ôl eu nodi, i’w rheoli cystal â phosibl, yna ni fyddaf innau, fel yr Archwilydd Cyffredinol, yn mynd ati i fwrw bai. Yn hytrach, byddaf yn ceisio dod o hyd i ffyrdd y gallwn ddysgu o fethiant a llwyddiant fel ei gilydd.’

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Cymryd risgiau yn y sector cyhoeddus, 2017**[27]

88 Mae’r Comisiynydd eisoes wedi darparu her a chymorth i Lywodraeth Cymru ar nifer o feysydd polisi cenedlaethol er mwyn helpu i roi mwy o ryddid i gyrff cyhoeddus weithredu’r Ddeddf.[28] Ceir enghreifftiau o hyn yn **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn**.

89 Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi gweithio gyda chyrff cyhoeddus er mwyn datblygu dull cymesur ac ystyrlon o gynnal ei archwiliadau sy’n ychwanegu gwerth ac yn hyrwyddo dysgu. Mae wedi parhau i danlinellu na fydd ei archwiliadau yn ymwneud â chydymffurfio â rhestr wirio. Yn hytrach, byddant yn ceisio deall ffyrdd o weithio, gan adlewyrchu ei ddyletswydd ac ysbryd y Ddeddf.

90 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff yn 2018-19 a 2019-20. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant. Bydd yn ystyried sut mae cyrff yn gweithredu’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cyd-destun hwn. Bydd yr archwiliadau yn llywio adroddiad statudol cyntaf yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf, a gyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2020.

27 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cymryd risgiau yn y sector cyhoeddus, 2017
28 Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd at hyn**, 2018

Mae hon yn daith y mae gen i ran ynddi, fodd bynnag, mae gennych chithau ran ynddi ac mae gan Sophie ei rhan...

... Rydym ninnau fel archwilwyr yn gorfod dod o hyd i'n ffordd yn ogystal, datblygu dull sy'n gwneud synnwyr ac sy'n gymorth i'r sector cyhoeddus cyfan. Felly, rydw i efo chi, dydw i ddim yn gweithio ar y tu allan ac yn edrych i mewn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2016**[29]

Felly ymddiriedaeth ydy'r peth; ymddiriedaeth ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ar y daith honno ac, oddi wrthym ni, dilysiad bod y daith honno yn digwydd a'n bod ni'n ei rhannu gyda chi.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2016**[30]

29 Archwilydd Cyffredinol Cymru, araith cynhadledd Llunio Atebolrwydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, 2016
30 Archwilydd Cyffredinol Cymru, araith cynhadledd Llunio Atebolrwydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, 2016

# Atodiad 1: sylwadau blwyddyn un: Cwestiynau'r alwad am dystiolaeth

Cwestiwn 1: Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym yn 2015 a daeth y prif ddarpariaethau, gan gynnwys y ddyletswydd llesiant, i rym o fis Ebrill 2016.

| 1a Sut fyddech chi'n disgrifio'r Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch sefydliad? Ticiwch bob blwch perthnasol. | | | |
|---|---|---|---|
| A | Gwrthdyniad | Ni fydd y Ddeddf yn ein helpu ni i fynd i'r afael â'r heriau mawr y mae ein sefydliad yn eu hwynebu. | |
| | | Bydd angen i ni neilltuo amser ac adnoddau sy'n golygu bod cost a chost cyfle i'r sefydliad. | |
| B | Diangen | Nid yw'r Ddeddf yn cynnig modd newydd na defnyddiol o ystyried yr hyn yr ydym yn ei wneud na sut yr ydym yn gweithio. | |
| | | Mae llawer o'r Ddeddf yn synhwyrol ac yn werthfawr ond mae'n deddfu ar gyfer pethau yr ydym eisoes yn ceisio eu gwneud. | |
| | | Mae llawer o'r Ddeddf yn synhwyrol ac yn werthfawr ond mae'n deddfu ar gyfer pethau yr ydym eisoes yn eu gwneud. | |
| C | Cyfle | Gall y Ddeddf ein helpu ni i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr y mae ein sefydliad yn eu hwynebu. | |
| | | Mae gan y Ddeddf y potensial i wella ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol. | |
| | | Mae gan y Ddeddf y potensial i'n helpu ni ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chanlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion. | |
| | | Mae gan y Ddeddf y potensial i sbarduno newid cadarnhaol mewn diwylliant ac ymddygiad. | |
| Ch | Angenrheidiol | Mae angen y Ddeddf arnom er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr y mae ein sefydliad yn eu hwynebu. | |
| | | Mae angen y Ddeddf arnom i wella ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol. | |
| | | Mae angen y Ddeddf arnom i'n helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy a chanlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion. | |
| | | Mae angen y Ddeddf arnom i'n galluogi i ddarparu'r diwylliant a'r ymddygiad iawn. | |
| D | Dim un o'r uchod | | |

1a Rhowch unrhyw sylwadau esboniadol ar yr uchod.

| Ateb 1a |
|---|
| |

| 1b Sut fyddech chi'n disgrifio'r newid yr ydych chi'n bwriadu ei wneud er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf? Ticiwch bob blwch perthnasol. | | | |
|---|---|---|---|
| A | Cydymffurfio | Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion statudol allweddol a'n bod yn gallu dangos ein bod wedi gwneud hynny. | |
| B | Cyfochri | Byddwn yn sicrhau bod y newidiadau yr oeddem/yr ydym yn eu gwneud wedi eu cyfochri â'r Ddeddf. | |
| C | Addasu | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf i'n helpu ni i ystyried sut yr ydym yn gweithio a'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. | |
| | | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf fel modd o'n helpu ni i wneud cynnydd mewn meysydd y mae angen i ni eu gwella. | |
| Ch | Gweddnewid | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf i'n helpu ni fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr y mae ein sefydliad yn eu hwynebu. | |
| | | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf i wella ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol. | |
| | | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf i gyflawni gwasanaethau mwy cynaliadwy a chanlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion. | |
| | | Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf fel modd o sbarduno newid mewn diwylliant ac ymddygiad. | |
| D | Dim un o'r uchod | | |

1b Nodwch unrhyw sylwadau i esbonio’r uchod.

| Ateb 1b |
|---|
| |

| Cwestiwn 2a: Mae eich sefydliad wedi pennu, neu mae yn y broses o bennu, amcanion llesiant. Pa mor wahanol oedd y broses o’i chymharu â’r broses ar gyfer pennu amcanion corfforaethol yn y gorffennol? | | | |
|---|---|---|---|
| A | Roedd y broses yr un fath. | Roedd y broses yr un fath â’r broses ar gyfer pennu amcanion corfforaethol mewn blynyddoedd blaenorol. | |
| B | Gwnaethom rai pethau yn wahanol. | Byddwn yn sichrau y caiff y newidiadau yr oeddem/yr ydym yn bwriadu eu gwneud eu cydlynu â’r Ddeddf. | |
| | | Gwnaethom rai newidiadau i adlewyrchu’n well y pum ffordd o weithio. | |
| C | Gwnaethom sawl peth yn wahanol. | Gwnaethom rai gwelliannau nodedig o ganlyniad i’r Ddeddf, gan ddefnyddio’r pum ffordd o weithio. | |
| Ch | Gwnaethom newidiadau sylweddol. | Gwnaethom ddefnyddio’r pum ffordd o weithio i raddau llawer ehangach o ganlyniad i’r Ddeddf. | |
| | | Ar ôl gwneud newidiadau sylweddol, rydym o’r farn bod y proses ar gyfer pennu amcanion llesiant yn llawer gwell na’r broses ar gyfer pennu amcanion corfforaethol mewn blynyddoedd blaenorol. | |
| D | Dim un o’r uchod | | |

Cwestiwn 2:

Os mai A neu D oedd eich ateb, eglurwch pam.

Os mai B-Ch oedd eich ateb, disgrifiwch beth oedd/sydd yn wahanol am y broses hon o'i chymharu â'r broses ar gyfer pennu amcanion corfforaethol yn y gorffennol. Cyfeiriwch at sut y gwnaethoch chi ddefnyddio'r pum ffordd o weithio.

| **Ateb 2b** |
| --- |
| |

Cwestiwn 3: Heblaw am ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eich amcanion llesiant, pa gamau allweddol eraill ydych chi wedi eu cymryd i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd yr ydych yn gweithio? Canolbwyntiwch ar y camau allweddol yr hoffech dynnu ein sylw atynt.

| **Ateb 3** |
| --- |
| |

Cwestiwn 4a: Beth yw'r camau allweddol yr ydych yn bwriadu eu cymryd i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd yr ydych yn gweithio? Canolbwyntiwch ar y camau allweddol yr hoffech dynnu ein sylw atynt.

| **Ateb 4a** |
| --- |
| |

Cwestiwn 4b: Sut y byddwch chi'n gwybod eich bod wedi ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd yr ydych yn gweithio? Disgrifiwch hyn o ran yr effaith y byddech yn disgwyl ei gweld.

| **Ateb 4b** |
| --- |
| |

Cwestiwn 5: A oes unrhyw rwystrau mewnol i weithredu'r Ddeddf ac ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac os felly, beth ydynt? Cyfeiriwch at y prif rwystrau mewnol.

| **Ateb 5** |
| --- |
| |

Cwestiwn 6: A oes unrhyw rwystrau allanol i weithredu’r Ddeddf ac ymwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac os felly, beth ydynt? Cyfeiriwch at y prif rwystrau allanol.

| **Ateb 6** |
| --- |
| |

Cwestiwn 7: Pa gymorth allanol fyddai’n eich helpu i ymwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach?

| **Ateb 7** |
| --- |
| |

Cwestiwn 8: A oes unrhyw enghreifftiau o arfer yr hoffech eu rhannu â ni nad ydych wedi cyfeirio atynt eisoes? Gallai’r rhain fod yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth neu brosiect neu i brosesau llywodraethu a chorfforaethol. Gallent fod yn berthnasol i’ch sefydliad eich hun neu i brosiect ar y cyd.

Mae croeso i chi atodi unrhyw ddogfennau neu astudiaethau achos perthnasol.

| **Ateb 8** |
| --- |
| |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru